


MENTER SIABOD

Mae Menter Siabod yn bodoli er mwyn gwasanaethu'r gymuned, drwy gynnig cyfleusterau a gwasanaethau defnyddiol i'r pentref. Rydym bob amser yn croesawu trigolion y gymuned sydd â diddordeb i'n cyfarfodydd (dyddiadau ar flaen y Newyddlen hon). Hoffem awgrymu, os bydd un person o bob grŵp cymunedol yn ymuno, gobeithio y bydd yn arwain at gydweithio a chydweithredu gwell. Rydym yn rhentu'r pafiliwn a'r Ystafell Gyfrifiaduron ar brydles ac yn eu cynnal a chadw fel cyfleusterau ar gyfer yr holl gymuned – nid yn unig inni ein hunain! - Er ein bod yn fudiad 'nid er elw' (a ddim mewn cystadleuaeth fwriadol gydag unrhyw grŵp arall o'r pentref) mae gennym ni rai cyfrifoldebau ariannol penodol. Fodd bynnag, diolch i drigolion y pentref a defnyddwyr eraill y cyfleusterau (Clwb Ieuentid, Dosbarthiadau Cymraeg ac ati) rydym hyd yn hyn wedi llwyddo ymdopi â'r cyfrifoldebau hynny. Mae'r crynodeb Incwm a Gwariant o'n cyfrifon archwiledig ar gyfer 2017/18 yn dangos o le daeth ein hincwm a sut bu inni ei wario:

Menter Siabod Cyf., Rhif Cwmni: 05697686

Crynodeb Incwm a Gwariant – Y Flwyddyn a Ddaeth i ben yn 28/02/2018



GWARIANT

Biliau Cyffredinol	£1,077.85
Wyneb bwrdd	£35.25
Newyddlen	£1,437.00
Offer Ymolchi a Hylendid	£73.25
Treuliau Banc a Threth	
Corfforaeth	£93.76
Gwefan	£42.00
Prydlesi	£1.00
Pabell Fawr newydd	£622.93
Yswiriant	£1,557.77
Sinema	£312.00
Cynnal a Chadw'r Ystafell Gyfrifiaduron	£26.75
Cynnal a Chadw'r Pafiliwn	£722.66
Peiriant Talu ac Arddangos	£114.00
Gwaith Gweinyddol ac Offer Swyddfa	£45.00

Cyfanswm Gwariant: £6,161.22

INCWM

Cronfa CAE (PC Eryri)	£150.00
Offer / Llogi Ystafelloedd Eraill	£80.00
Clwb Celfyddydau	£460.00
Cyfraniadau	£129.05
Cronfa CEDS (Cyngor Conwy)	£787.00
Raffl Sinema	£648.00
Newyddlen	£60.00
Llogi Ystafell Gyfrifiaduron	£30.00
Peiriant Talu ac Arddangos	£553.70
Biliau Cyffredinol	£39.87
Wyneb Bwrdd	£3,000.00
IT Club	£271.00
Bore Coffi i Ferched	£460.00
Clwb Ieuentid	£300.00
Llogi Pabell Fawr Cŵn Defaid	£100.00

Cyfanswm Incwm: £7,068.62

Os ydych chi, neu grŵp cymunedol rydych yn rhan ohono, yn dymuno cymryd rhan mwy gyda Menter Siabod neu gydweithio gyda Menter Siabod ar brosiect, cysylltwch gyda Liz, Teleri, Eunice neu Bob (manyllion cyswllt ar flaen y newyddlen) cofiwch hefyd mae croeso mawr ichi ddod i'r cyfarfodydd misol (bydd gennym ni fisgedi ar gael).